
**Rhif**: **5.4**

**Rhif y Cais / Application Number : C16-0183-32-LL**

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**



**Rhif: 4**

Cais Rhif: C16/0183/32/LL
Dyddiad Cofrestru: 08/03/2016
Math y Cais*:* Llawn - Cynllunio
Cymuned*:* Botwnnog
Ward: Botwnnog

Bwriad: CAIS I GADW ESTYNIAD I SIED AMAETHYDDOL
Lleoliad: GWRYCH Y DRYW, BOTWNNOG, PWLLHELI, LL538RG

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** CANIATÁU.

## 1. Disgrifiad:

1.1 Gohiriwyd gwneud penderfyniad ar y cais ym Mhwyllgor Cynllunio dyddiedig 25 Ebrill 2016 er mwyn i aelodau y Pwyllgor ymweld a'r safle ar 04 Gorffennaf 2016. Mae'r cais yn gais ôl weithredol i gadw estyniad i adeilad amaethyddol. Mae'r estyniad yn mesur 16.4 medr o hyd, 10.6 medr o led a 4.4 medr i'w fan uchaf. Datgan yr ymgeisydd bod arwynebedd llawr yr estyniad yn mesur tua 15% o arwynebedd siediau presennol y fferm. Gorchuddiwyd rhan uchaf y muriau a tho'r estyniad gyda sitiau llwyd las i weddu a gweddill yr adeilad. Lleolir yr estyniad ar dalcen de dwyreiniol yr adeilad presennol a thu ôl i estyniad arall a godwyd yn 2015 dan hawliau caniataol. Deallir gan yr ymgeisydd bod yr estyniad cyfredol yn meddiannu safle corlan ddefaid blaenorol a defnyddir yr estyniad cyfredol ar gyfer cadw defaid. Mae adeiladau'r fferm wedi eu lleoli y tu allan i ffin pentref Botwnnog fel y'i diffinnir o fewn Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd a thu mewn i Ardal Gwarchod y Dirwedd. Gwasanaethir yr adeiladau amaethyddol gan ffordd breifat sydd hefyd yn gwasanaethu maes carafanau sefydlog, gweithdy, a tri tŷ annedd.

1.2 Cyflwynir y cais i'r Pwyllgor oherwydd bod y Cyngor wedi derbyn mwy na tri gwrthwynebiad i'r cais.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

**2.2 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

B10 - DIOGELU A CHYFOETHOGI ARDALOEDD GWARCHOD Y DIRWEDD - Yn diogelu a chyfoethogi Ardaloedd Gwarchod y Tirlun drwy sicrhau fod yn rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu i osgoi niwed arwyddocaol i nodweddion cydnabyddedig.

B12 – GWARCHOD TIRWEDDAU, PARCIAU A GERDDI HANESYDDOL - Gwarchod tirweddau, parciau a gerddi ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru os byddant yn achosi niwed arwyddocaol i'w cymeriad, eu hedrychiad neu eu gosodiad.

B22 - DYLUNIAD ADEILADAU - Hyrwyddo dyluniad adeiladau da drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a'r amgylchedd lleol.

B23 – MWYNDERAU - Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig mwynderau'r ardal leol.

B25 – DEUNYDDIAU ADEILADU - Gwarchod cymeriad gweledol trwy sicrhau fod yn rhaid i ddeunyddiau adeiladu fod o safon uchel sy'n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol.

B27 - CYNLLUNIAU TIRLUNIO - Sicrhau fod cynigion a ganiateir yn ymgorffori tirlunio meddal/caled o safon uchel sy'n briodol ar gyfer y safle ac sy'n ystyried cyfres o ffactorau sy'n anelu i osgoi niwed i nodweddion cydnabyddedig.

B33 - DATBLYGIADAU SY'N CREU LLYGREDD NEU BOENDOD - Diogelu amwynderau dynol, ansawdd iechyd a'r amgylchedd naturiol neu adeiledig rhag lefelau uchel o lygredd.

CH33 – DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD - Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a'r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

D9 – ADEILADAU AC ADEILADWEITHIAU FFERM - Cymeradwyo codi adeiladau ac adeiladweithiau ar gyfer dibenion amaethyddol os ydynt yn rhesymol angenrheidiol at ddibenion amaethyddiaeth ac os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol yn ymwneud gyda lleoliad y datblygiad, difrodi adeilad a warchodir, a bioamrywiaeth a mesurau lliniaru amgylcheddol.

**2.3 Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 8 (Ionawr 2016)
Nodyn Cyngor Technegol 5 : Cynllunio a chadwraeth natur
Nodyn Cyngor Technegol 6 : Cynllunio ar gyfer cymunedau gwledig cynaliadwy
Nodyn Cyngor Technegol 12 : Dyluniad

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Cais rhif 2/12/9 'O' – Adeilad ar gyfer cadw anifeiliaid a phorthiant ac ystorf slyrri oddi tano – Gwrych Dryw, Botwnnog – Caniatau ar 22 Mai 1995.

Cais rhif C15/0008/32/YA – Estyniad i sied amaethyddol ar gyfer storio bwyd anifeiliaid – Gwrych Dryw, Botwnnog – Caniatau 12 Chwefror 2015.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Cefnogi. |
| Uned Drafnidiaeth: | Dim yn bwriadu gwneud argymhelliad. |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd: | Dim sylwadau |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. |

Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben a derbyniwyd sawl gohebiaeth yn gwrthwynebu y cais erbyn ar sail:

- Estyniad i adeilad amaethyddol wedi ei godi ac yn cael ei ddefnyddio heb hawl cynllunio/ trafnidiaeth sylweddol yn deillio o'r safle.
- Trafnidiaeth i'r fferm wedi cynyddu ers codi'r estyniad.
- Y pryder mwyaf yw diogelwch ffyrdd, iechyd a diogelwch ac effaith ar ddeiliaid trigolion cyfagos oherwydd bod y ffordd sy'n gwasanaethu'r fferm yn gul, is-safonol a ddim yn addas ar gyfer trafnidiaeth a gynhyrchir gan y fferm.
- Lleoliad yr estyniad yn torri rheolau Ewropeaidd parthed lleoliad adeilad amaethyddol mewn perthynas i dy breswyl.
- Estyniad sylweddol i'r adeiladau.
- Lleoliad gwledig yr estyniad ac amharu ar dawelwch.
- Cerbydau wedi eu parcio ar y ffordd gul.
- Cerbyd yn gyrru o iard y fferm bron a chreu damwain oherwydd gosodiad yr iard o ganlyniad i adeiladu estyniad diweddar.
-

Sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd cyn pwyllgor cynllunio dyddiedig 25 Ebrill 2016:

- Nid yw lleoliad yr adeilad yn cydymffurfio gyda rheoliadau Ewropeaidd oherwydd ei fod o fewn 400m i dy sydd ddim yn gysylltiedig â'r fferm.
- Mae'r mynediad i'r fferm ar hyd trac cul yn anaddas ar gyfer trafnidiaeth y fferm.
- Lleoliad yr adeiladau yn amharu ar fwynderau a diogelwch eiddo cyfagos.
- Nid yw'r hawl tramwy ar hyd y ffordd yn addas ar gyfer trafnidiaeth i'r fferm.
- Ni ddylai adeilad agosaf i'r eiddo gael ei ddefnyddio i gadw anifeiliaid a dylid codi terfyn solet rhwng adeiladau y fferm ac eiddo cyfagos.
- Y datblygiad yn debygol o waethygu problemau presennol ar y fferm.
- Mae'r sŵn gan wartheg sy'n cael eu cadw yn yr adeiladau yn ystod nos yn annioddefol.

Yn ogystal â'r gwrthwynebiadau uchod derbyniwyd gwrthwynebiadau nad oedd yn wrthwynebiadau cynllunio dilys oedd yn cynnwys:

- Datganiad yr ymgeisydd ei fod wedi cysylltu gyda holl gymdogion yn anghywir - ymgeisydd wedi trafod y mater gyda thrigolion y fferm dy yn unig, sef y tŷ pellaf ymysg yr eiddo cyfagos ond nid oedd wedi trafod y mater gyda gwrthwynebwyr.
- Anifeiliaid heintus wedi eu gadael yng ngwaelod terfyn yr ardd ble mae plant yn chwarae.
- Cyfreithiwr gyda nifer o luniau a rhesymau cyfreithiol parod dros gyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon oherwydd ei bod yn

ymddangos bod Cyngor wedi rhagdybio penderfynu y cais o ystyried bod yr adeilad wedi ei godi ac mewn defnydd.

- Trigolion maes carafanau cyfochrog heb dderbyn llythyr yn eu gwybyddu am y datblygiad
- Loriau i'r fferm yn tresbasu ar dir cymydog
- Cyflwr y ffordd breifat wedi dirywio oherwydd trafnidiaeth a thywydd gwlyb.
- A oes modd datblygu mynedfa neillog i'r fferm.

Sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd cyn pwyllgor cynllunio dyddiedig 25 Ebrill 2016:

- Pryderon ynglŷn a materion iechyd a diogelwch sy'n codi o weithgareddau fferm.
- Diffyg cyfathrebu rhwng Adran Cynllunio ac Adran Gwarchod y Cyhoedd o fewn y Cyngor parthed pryderon a fynegwyd gan drigolion cyfagos ar weithgareddau o fewn y fferm
- Dylai'r ymgeisydd ddarparu mynediad ei hun i'r fferm
- Gwrychoedd wedi eu torri heb ganiatâd perchennog.

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad.**

5.1 Mae Polisi D9 CDUG yn gefnogol i godi adeiladau ac adeiladweithiau ar gyfer dibenion amaethyddol os ydynt yn rhesymol angenrheidiol ar gyfer dibenion amaethyddiaeth ac os gellir cydymffurfio gyda'r holl feini prawf o fewn y polisi.

5.2 Deallir gan yr ymgeisydd ei fod yn berchen ar 35 hectar o amgylch adeiladau'r fferm ym Motwnnog ac yn rhentu 90 hectar arall. Datgan yr ymgeisydd bod yr estyniad yn meddiannu safle corlannau defaid blaenorol gyda'i arwynebedd llawr yn mesur tua 15% o adeiladau'r fferm. Ni ystyrir bod amheuaeth felly dros ddibenion yr estyniad i'r adeilad amaethyddol presennol ac ystyrir bod ei faint a'i leoliad yn rhesymol ar gyfer dibenion amaethyddol y fferm.

5.3 Er yr ystyrir fod yna angen amaethyddol am y sied mae gofyn fod y bwriad hefyd yn cydymffurfio gyda meini prawf a geir ym mholisi D9. Y meini prawf hynny yw:-

- Bod y safle'n agos at adeiladau amaethyddol presennol onid oes anawsterau ynglŷn â'r safle neu ddyluniad technegol sy'n rhwystro hynny.
- Na fydd y datblygiad yn achosi difrod arwyddocaol i adeilad a warchodir.
- Na fydd y datblygiad yn niweidio bioamrywiaeth (bywyd dyfrol yn enwedig) a bod y bwriad yn cynnwys mesurau lliniaru amgylcheddol digonol.

5.4 Fel y gwelir mae'r maen prawf cyntaf yn ymwneud â lleoli'r adeilad yn agos at adeiladau amaethyddol presennol. Mae'r cais yn golygu ymestyn adeilad presennol ac felly yn cydymffurfio gyda'r mae'n prawf yma.

5.5 Mae'r ail faen prawf yn ymwneud ac achosi difrod arwyddocaol i adeilad a warchodir ac mae'r trydydd maen prawf yn ymwneud gyda niweidio bioamrywiaeth ac felly bydd y materion hyn yn cael ystyriaeth yn y rhannau perthnasol isod o'r adroddiad.

**Mwynderau gweledol**

5.6 Mae dyluniad yr estyniad o fath a welir yn gyffredinol yn yr ardal gyda phaneli concrid ar y waliau isaf ac yna rhannau uwch y waliau allanol cefn yn cael eu gorffen gyda byrddau ystyllod Swydd Efrog a sitiau dur ar y talcen a tho. Datgan yr ymgeisydd bod lliw y sitiau dur yn cydweddu gyda gorffeniad y sied bresennol. Lleolir yr estyniad ar bwys adeilad presennol ac ni ystyrir y byddai yn creu strwythur amlwg yn y tirlun.

5.7 Mae'r safle yn gorwedd o fewn Ardal Gwarchod y Tirlun (AGT) a Thirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llyn ac Ynys Enlli.

5.8 Nod Polisi B10 CDUG yw cynnal, cyfoethogi ac adfer cymeriad ac ansawdd cydnabyddedig yr ardaloedd hyn a gwrthodir cynigion datblygu a fyddai'n achosi niwed arwyddocaol i'r dirwedd. Disgwylir dyluniad o safonol ynghyd a lleoliad addas a thirlunio priodol. Rhoddir ystyriaeth i fuddiannau economaidd a chymdeithasol unrhyw ddatblygiad wrth ystyried unrhyw gais cynllunio. Mae'r estyniad wedi ei leoli ar bwys talcen yr adeilad a thu ôl i estyniad arall a godwyd yn ddiweddar pan roddwyd hawl caniatâd ymlaen llaw yn 2015. Mae'r estyniad felly yn gosod ei hun fel rhan integrol o'r adeilad presennol o safbwynt ei leoliad a dyluniad. O ganlyniad, ni ystyrir bod y cais yn groes i bolisi B10, B22, B25 CDUG.

Sylweddolir gofynion polisi B27 CDUG parthed tirlunio safleoedd datblygu, ac er na fwriedir tirlunio o amgylch yr estyniad, teimlir bod lleoliad yr estyniad ar bwys yr adeilad a'i faint yn creu datblygiad derbyniol ynddo ei hun, ac nid yw niweidio Bioamrywiaeth fel y cyfeirir ato yn trydydd maen prawf D9 CDUG gan ei fod ar leoliad corlannau defaid blaenorol. Ni ystyrir felly bod y cais yn groes i bolisi B27 na pholisi D9 CDUG.

5.9 Lleolir y safle o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llyn ac Enlli. Mae Polisi B12 yn datgan y rhoddir ystyriaeth i'r wybodaeth am y Tirweddau Hanesyddol pan asesir effaith cynigion sydd ar y fath raddfa ac mor fawr fel y byddent yn cael effaith fwy nag effaith leol arnynt. Fel y nodwyd uchod mae'r cais yn golygu ymestyn adeilad amaethyddol presennol ac o'r herwydd ni ystyrir bod ei leoliad na'i faint yn cael effaith ehangach ar y dirwedd hanesyddol. Ni ystyrir fod y bwriad yn groes i Bolisi B12 CDUG.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.10 Hysbysebwyd y cais ar y safle a hysbyswyd trigolion cyfagos a derbyniwyd gohebiaeth yn gwrthwynebu'r cais.

5.11 Noder bod un gwrthwynebiad yn datgan bod yr adeilad wedi ei godi ac yn cael ei ddefnyddio at bwrpas amaethyddol heb yn gyntaf sicrhau hawl ar ei gyfer. Mae'n rhaid sylweddoli nad yw'n drosedd codi adeilad heb hawl cynllunio ac mae Polisi Gorfodi (Cynllunio) 2010 Cyngor Gwynedd yn datgan gellir cyflwyno cais ôl gweithredol i'r Cyngor er rheoleiddio'r datblygiad anawdurdodedig gydag amodau priodol ac er mwyn creu datblygiad derbyniol. Mae'r cais felly yn unol â'r polisi hwn.

5.12 Mae deiliaid llain y maes carafanau cyfochrog yn datgan nad oedd y Cyngor wedi eu hysbysu am y cais. Dylid nodi bod rhybudd safonol wedi ei osod ar bolyn pren ar derfyn y maes carafanau ynghyd a hysbysiad wedi ei anfon at berchennog y maes

carafanau yn ei hysbysu bod y cais wedi ei dderbyn gan y Cyngor. Ystyrir bod y gweithrediad yma yn cyfarfod gofynion statudol parthed hysbysu cais cynllunio.

5.13 Mae'n ymddangos bod y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd o ganlyniad i'r hysbysiad statudol yn cyfeirio yn bennaf at faint yr estyniad, lleoliad yr estyniad mewn perthynas a eiddo cyfagos (yn cynnwys y maes carafanau) ac effaith trafnidiaeth a gynhyrchir gan yr estyniad ar y cyflwr a diogelwch y ffordd breifat sy'n arwain i'r fferm ynghyd ac eiddo cyfagos. Mae'n rhaid sylweddoli bod y fferm wedi bodoli ar y safle ers blynyddoedd lawer a bod gweithgareddau'r fferm yn debygol o gynhyrchu trafnidiaeth yn cynnwys cerbydau mawr ar gyfer cludo anifeiliaid, porthiant a pheiriannau i'r fferm ayb ac mae'n debygol y byddai sefyllfa o'r fath yn parhau boed yr estyniad yn bodoli neu peidio.

5.14 Mae cymal Mwynderau Gweledol uchod eisoes wedi trafod effaith yr adeilad ar y tirlun. Datgan gwrthwynebwr bod lleoliad yr estyniad yn torri canllawiau Ewropeaidd parthed agosrwydd adeiladau amaethyddol i dai preifat, ni chyflwynwyd manylion i'r Cyngor ynglŷn â'r canllawiau hyn ac felly ni ellir cadarnhau os ydynt yn faterion cynllunio perthnasol neu yn faterion sy'n dod o dan reoliadau tu hwnt i reoliadau a materion cynllunio. Fodd bynnag, dylid nodi bod y cais yn ymwneud a chadw estyniad i adeilad presennol a bod yr estyniad hwnnw wedi ei leoli ar bwys talcen de dwyreiniol yr adeilad ac sydd ymhellach oddi wrth dai y gwrthwynebwyr na'r adeiladau presennol. Oherwydd hyn ni ystyrir bod y bwriad yn groes i ail faen prawf polisi D9 CDUG. Noder hefyd bod Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi cyflwyno sylwadau yn cadarnhau nad oedd ganddynt sylwadau i'w gwneud ar y mater oherwydd bod y cais yn ymwneud a chadw estyniad i sied amaethyddol. Ni ystyrir bod graddfa y datblygiad yn achosi niwed arwyddocaol i ansawdd iechyd, diogelwch neu amwynder dynol neu'r amgylchedd naturiol neu adeiledig.

5.15 Ystyrir bod y gwrthwynebiadau sy'n cyfeirio at symudiadau cerbydau amaethyddol ar y ffordd breifat i iard y fferm yn faterion sifil yn hytrach nag yn faterion cynllunio perthnasol. Dylid sylweddoli bod y fferm yn bodoli ar y tir ers blynyddoedd maith gyda thrafnidiaeth yn cludo nwyddau i'r fferm fel bo'r angen. Noder hefyd y cyflwynwyd cais am ganiatâd ymlaen llaw ar gyfer codi estyniad i'r adeilad fferm yn 2015. Lleolwyd yr estyniad hwnnw ar safle seilo blaenorol a rhwng lleoliad yr estyniad cyfredol a'r ffordd breifat. Hysbysebwyd y cais hwnnw ar dir ger y safle ac ni dderbyniwyd gwrthwynebiad. Rhoddwyd hawl caniatâd ymlaen llaw i godi'r estyniad ar 12 Chwefror 2015 ac mae'r caniatâd hwnnw wedi ei weithredu.

5.16 Deallir gan y gwrthwynebwyr y byddai adeiladu ffordd mynediad neillog i'r fferm er mwyn gwahanu'r fferm oddi wrth y tai preswyl yn debygol o ddatrys y gwrthwynebiadau i'r cais. Fodd bynnag, nid oes gwrthwynebiad cynllunio sylweddol i'r cais ar sail diogelwch ffyrdd neu fwynderau lleol ac felly ystyrir nad oes cyfiawnhad cynllunio dros gynnwys amod ar unrhyw ganiatâd yn gorfodi codi terfyn i wahanu adeiladau'r fferm oddi wrth y ffordd breifat ynghyd ac adeiladu ffordd mynediad newydd i'r fferm.

5.17 Ni ystyrir bod y cais yn groes i bolisi B23, B33 na D9 CDUG.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.18 Mae'r safle yn meddiannu lleoliad yng nghefn gwlad tua 1 cilomedr o bentref Botwnnog. Mae'r trac preifat presennol sy'n arwain o'r ffordd sirol ddi-ddosbarth i'r safle yn mesur tua 70 medr o hyd. Mae'r trac yn gwasanaethu'r fferm, eiddo preswyl a maes carafanau sefydlog gerllaw. O ystyried bod adeiladau'r fferm yn bodoli

eisoes, ni ystyrir y byddai'r estyniad cyfredol, oherwydd ei faint a'i leoliad ar safle corlannau defaid blaenorol, yn creu cynnydd sylweddol mewn trafnidiaeth ar hyd y ffordd. Datgan yr ymgeisydd bod defnydd a gweithgareddau'r tir yn bodoli eisoes ac nid yw'r cais yn ychwanegu at hynny. Ni ystyrir y byddai lefel trafnidiaeth ar gyfer y fferm yn cynyddu yn ddigonol i gyfiawnhau gwrthwynebiad ar sail ffyrdd. Derbyniwyd sylwadau gan yr Uned Drafnidiaeth yn cadarnhau dim gwrthwynebiad i'r cais. Ni ystyrir bod y bwriad yn groes i bolisi CH33 CDUG

**Hanes cynllunio perthnasol**

5.19 Cyflwynir y cais i'r Cyngor o ganlyniad i drafodaethau gyda swyddog o'r Uned Gorfodaeth y Gwasanaeth Cynllunio.

**Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

5.20 Rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r materion cynllunio perthnasol a godwyd o ganlyniad i'r cyhoeddusrwydd statudol a rhoddwyd i'r cais ac ni ystyrir y byddai'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn cyfiawnhau gwrthod y cais yn yr achos yma.

**6. Casgliadau:**

6.1 Mae'r ffaith bod fferm weithredol yn bodoli ar y safle yn ystyriaeth cynllunio o bwys wrth ystyried y cais presennol. Mae'r Cyngor eisoes wedi caniatáu estyniad cyffelyb i'r adeilad dan reolau caniatâd ymlaen llaw yn 2015. Mae maint arwynebedd llawr yr estyniad cyfredol yn mesur tua 15% o faint yr adeiladau presennol ac o'r herwydd yn rhan is-wasanaethol o'r safle. Nid yw'r bwriad yn amharu yn sylweddol ar fwynderau gweledol yr ardal nac yn cael effaith niweidiol sylweddol ychwanegol ar fwynderau trigolion cyfagos, ac mae'n cydymffurfio â'r cyfan o'r polisïau a nodir yn yr adroddiad hwn.

**7. Argymhelliad:**

7.1 **Caniatáu** – Defnydd amaethyddol yn unig.